

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant  
a Phobl Ifanc (Cymru)

Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1  
Hydref 2010



# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliadcymru.org](http://www.cynulliadcymru.org)**

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Swyddfa Ddeddfwriaeth  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8065  
Ffacs: 029 2089 8021  
e-bost: [Swyddfadeddfwriaeth@cymru.gov.uk](mailto:Swyddfadeddfwriaeth@cymru.gov.uk)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010  
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant  
a Phobl Ifanc (Cymru)

Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1  
Hydref 2010



## **Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5**

Cafodd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 ei sefydlu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried deddfwriaeth a gyflwynir i'r Cynulliad, yn arbennig gan Lywodraeth Cymru, a llunio adroddiad ar yr ystyriaethau hynny. Hefyd, gall y Pwyllgor ystyried deddfwriaeth nad yw'n ddeddfwriaeth y llywodraeth, a llunio adroddiad ar yr ystyriaethau hynny, fel y bo'n briodol.

### **Pwerau**

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 4 Chwefror 2009 fel un o bwyllgorau deddfwriaeth y Cynulliad. Nodir ei bwerau yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn enwedig Rheolau Sefydlog 10, 22 a 23. Mae'r rhain ar gael yn [www.cynulliadcymru.org](http://www.cynulliadcymru.org)

### **Aelodaeth y Pwyllgor**

Aelod o'r Pwyllgor	Plaid	Etholaeth neu Ranbarth
Mark Isherwood	Ceidwadwyr Cymru	Gogledd Cymru
Eleanor Burnham	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Gogledd Cymru
Alun Davies	Llafur	Canolbarth a Gorllewin Cymru
Andrew Davies	Llafur	Gorllewin Abertawe
Darren Millar	Ceidwadwyr Cymru	Gorllewin Clwyd
Leanne Wood	Plaid Cymru	Canol De Cymru



# Cynnwys

---

Crynodeb o'r Casgliadau a'r Argymhellion.....	5
1. Cyflwyniad .....	10
2. Cefndir .....	12
3. Egwyddorion Cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth.....	14
4. Adran 1 - Y ddyletswydd i dalu sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn .....	19
5. Adran 2 - Cynllun y plant .....	25
6. Adran 3 - Llunio a chyhoeddi'r cynllun .....	32
7. Adran 4 - Adroddiadau .....	40
8. Adran 5 - Dyletswydd i hybu gwybodaeth o'r Confensiwn.....	49
9. Adran 6 - Pŵer i ddiwygio deddfwriaeth ac ati .....	54
10. Adran 7 - Cymhwyso'r mesur i bobl ifanc .....	57
11. Adran 8 - Y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn .....	63
Tystion.....	66
Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig .....	68
Crynodeb o'r dystiolaeth a gafwyd i'r holidur plant a phobl ifanc ....	70



## Crynodeb o'r Casgliadau a'r Argymhellion

---

*Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y meint yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr Adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau ategol:*

*Egwyddorion cyffredinol a'r angen am deddfwriaeth*

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r gefnogaeth a gafwyd i'r mesur hwn ac yn cymeradwyo ymgais Llywodraeth Cymru i gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r protocolau dewisol mewn deddfwriaeth. Felly mae'r Pwyllgor yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig. (Tudalen 18)

Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn credu bod angen cryfhau'r Mesur arfaethedig er mwyn cyflawni'r amcan polisi a fwriedir o wella ei amcanion hawliau ar gyfer plant a phobl ifanc. (Tudalen 18)

### **Adran 1 - Y ddyletswydd i dalu sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y dystiolaeth a roddwyd ac mae'n cytuno bod y geiriad presennol yn ddryslud a chymhleth ac mae'n credu bod yr ymadrodd 'penderfyniadau o natur strategol' yn cyfyngu ac yn gyfyng. Mae'r Pwyllgor yn siomedig nad yw'r 'ddyletswydd sylw dyledus' a osodir ar Weinidogion Cymru yn y Mesur arfaethedig yn cyfateb i'r dyletswyddau a osodwyd arnynt o ran cyfle cyfartal a datblygu cynaliadwy yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n gymwys wrth arfer eu swyddogaethau. (Tudalen 24)

**Argymhelliad 1: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y caiff y Mesur arfaethedig ei ddiwygio i gynnwys y geiriau canlynol neu eiriau tebyg yn adran 1(1) 'Rhaid i Weinidogion Cymru, wrth arfer eu swyddogaethau, dalu sylw dyledus i ofynion ... [Rhan 1 o'r Confensiwn a'r Protocolau Dewisol fel y nodir yn adran 1(1) o'r Mesur drafft presennol], a bod gwelliannau canlyniadol yn cael eu gwneud i'r Mesur arfaethedig i adlewyrchu'r argymhelliad hwn.** (Tudalen 24)



## **Adran 2 - Cynllun y plant**

Mae'r Pwyllgor o'r farn bod yr ymadrodd 'penderfyniadau strategol' yn annigonnol ac nad yw'n ddefnyddiol i bobl sy'n monitro effaith y ddeddfwriaeth hon. Os caiff argymhelliad 1 ei dderbyn, mae'r Pwyllgor o'r farn y bydd hyn yn sicrhau y caiff y mater hwn ei ddatrys, ond os na chaiff argymhelliad 1 ei dderbyn, mae'r Pwyllgor yn gwneud yr argymhelliad canlynol: (Tudalen 31)

**Argymhelliad 2: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai manylion yr hyn a gaiff ei ystyried yn 'benderfyniad strategol' gael ei gynnwys ar wyneb y Mesur arfaethedig. (Tudalen 31)**

## **Adran 3 - Llunio a chyhoeddi'r cynllun**

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y rhan fwyaf o'r dystiolaeth o blaid ymgynghori ar gynllun y plant ar ei ffurf drafft cyn ei gyhoeddi. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried tystiolaeth y Dirprwy Weinidog hefyd. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn bod hyn yn fater y mae angen ei ystyried ac mae'n gwneud yr argymhelliad a ganlyn. (Tudalen 38)

**Argymhelliad 3: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod dyletswydd yn cael ei hychwanegu at wyneb y Mesur arfaethedig, i ymghyghori â phlant, pobl ifanc a rhanddeiliaid perthnasol a'u cynnwys yn y gwaith o ddatblygu cynllun y plant cyn ei gyhoeddi ar ffurf drafft. (Tudalen 38)**

Ystyriodd y Pwyllgor hefyd y dystiolaeth sy'n awgrymu y dylai'r Mesur arfaethedig gynnwys y gofyniad i ystyried canlyniadau unrhyw ymgynghoriad a gynhelir. Nododd y Pwyllgor honiad y Dirprwy Weinidog y byddai hyn yn cael ei gynnwys o fewn dyletswydd cyfraith gyhoeddus gyffredinol, ond mae o'r farn bod angen sôn am hyn yn benodol ar wyneb y Mesur arfaethedig. (Tudalen 38)

**Argymhelliad 4: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod adran 3 yn cael ei ddiwygio i sicrhau y dylid rhoi ystyriaeth a sylw dyledus i ganlyniadau unrhyw ymgynghoriad wrth ddatblygu cynllun y plant. (Tudalen 38)**

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dystiolaeth ynghylch cynnwys ymgynghoreion eraill o dan adran 3(4). Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y mater hwn yn ddifrifol ac mae'n cydnabod bod hwn yn un maes sydd o ddiddordeb i lawer o bobl a sefydliadau. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r dystiolaeth a

gyflwynwyd sy'n nodi y gall y sefydliadau sydd â diddordeb yn y maes newid yn rheolaidd, ac ni fyddai am i rai grwpiau gael eu heithrio o ymgynghoriadau perthnasol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cytuno y dylid darparu er mwyn sicrhau y cynheili ymgynghoriad â'r partion a restrir yn Erthygl 5 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Halwiau'r Plentyn. (Tudalen 39)

**Argymhelliad 5: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y ddyletswydd i ymgynghori a nodir o dan 3(4) yn cael ei diwygio i gynnwys y canlynol (fel y nodir o dan Erthygl 5 o'r Confensiwn):**

**(-) Rhieni neu, lle y mae'n berthnasol, aelodau o'r teulu estynedig neu'r gymuned fel y darperir gan arferion lleol, gwarcheidwaid cyfreithiol neu bersonau eraill sy'n gyfreithiol gyfrifol dros y plentyn. (Tudalen 39)**

#### **Adran 4 - Adroddiadau**

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dystiolaeth ac yn cydnabod bod y terfyniad amser o gyflwyno adroddiad bob pum mlynedd yn unol â gofynion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig. (Tudalen 47)

Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai adroddiadau interim gael eu cyhoeddi er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cadw cofnod systematig o'r hyn sy'n digwydd ac er mwyn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd. (Tudalen 47)

Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi ac yn derbyn barn y Dirprwy Weinidog y gellir gwneud cais am adroddiadau interim drwy fusnes a phroses graffu arferol y Cynulliad. (Tudalen 47)

Mae gan y Pwyllgor amheuon ac roedd y cyfeiriad at y broses adolygu barnwrol fel ffordd o sicrhau cydymffurfio â'r Mesur arfaethedig yn peri pryder iddo. Mae'r Pwyllgor yn credu bod angen ffordd arall, briodol a mwy effeithiol o wneud iawn ar gyfer y rhai sydd o'r farn nad yw Gweinidogion Cymru wedi cyflawni eu dyletswyddau o dan y Mesur arfaethedig. Nodir bod y Dirprwy Weinidog yn fodlon ystyried hyn ymhellach a'i fod wedi ymrwymo i wneud hynny, a gwneir yr argymelliad canlynol: (Tudalen 47)

**Argymhelliad 6: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn cynnal trafodaethau â Chomisynydd Plant Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i archwilio'r mater**

**hwn o adolygiad barnwrol ymhellach. Y nod canolog y dylid anelu ato yw canfod ffordd effeithiol ac effeithlon o wneud iawn drwy gyflwyno cwynion i'r Comisiynydd Plant neu i'r Ombwdsmon neu i'r ddau, a gwneud hyn mewn ffordd a fyddai'n cynnig y dull symlaf, rhwyddaf a mwyaf cost effeithiol o gyflwyno cwynion o fewn cwmpas y Mesur arfaethedig. (Tudalen 48)**

#### **Adran 5 - Dyletswydd i hybu gwybodaeth o'r Confensiwn**

Er nad yw Adran 5 yn cynnwys erthygl 42 yn ei chyfanrwydd, mae'r Pwyllgor yn nodi barn y Dirprwy Weinidog bod y ddyletswydd i hybu gwybodaeth o'r Confensiwn yn cael ei hadlewyrchu ddigon yn yr adran hon. Mae'r Pwyllgor yn derbyn hyn ac mae'n teimlo'n dawelach ei feddwl o weld bod y gwaith o godi ymwybyddiaeth o'r Confensiwn eisoes wedi dechrau. (Ttudalen 53)

#### **Adran 6 - Pŵer i ddiwygio deddfwriaeth ac ati**

**Argymhelliad 7: Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r adroddiad gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ar yr adran hon, ac hefyd yn argymhell y dylai unrhyw gynigion i ymgynghori cyn gwneud gorchymyn o dan adran 6(4) gael eu gosod gerbron y Cynulliad; byddai hyn yn caniatáu i Bwyllgorau ac Aelodau'r Cynulliad roi ystyriaeth bridol iddynt. (*Gan greu gweithdrefn uwchgadarnhaol mewn gwirionedd*) (Tudalen 56)**

#### **Adran 7 - Cymhwyso'r mesur i bobl ifanc**

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried yr holl dystiolaeth yn ofalus o ran cymhwyso'r Mesur arfaethedig i bobl rhwng 18 a 24 oed, ac mae o'r farn bod y safbwyntiau gwahanol yn cyfleu dadleuon cadarn o'r ddwy ochr. Fodd bynnag, gan nad oes cytundeb glir, mae'r Pwyllgor yn fodlon i Lywodraeth Cymru gadw'r sefyllfa fel y mae o ran cynnwys pobl rhwng 18 a 24 oed o fewn cwmpas y Mesur arfaethedig. (Tudalen 61)

**Argymhelliad 8: Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r argymhelliad a wnaeth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ac yn cytuno y dylai unrhyw orchymyn a wneir o dan yr adran hon fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn uwchgadarnhaol. (Tudalen 62)**

## **Adran 8 - Y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn**

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y dystiolaeth ac mae'n fodlon i'r Protocolau Dewisol aros ar wyneb y Mesur arfaethedig. (Tudalen 65)

**Argymhelliad 9: Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r argymhelliad a wnaeth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ac yn cytuno y dylai unrhyw orchymyn a wneir o dan yr adran hon, i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol, fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.**

(Tudalen 65)

# 1. Cyflwyniad

---

1. Ar 14 Mehefin 2010, cyflwynodd Huw Lewis AC, y Dirprwy Weinidog dros Blant (“y Dirprwy Weinidog”), y Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) (“y Mesur arfaethedig”) a gwnaeth ddatganiad<sup>1</sup> yn y Cyfarfod Llawn y diwrnod canlynol.<sup>2</sup>

2. Yn ei gyfarfod ar 8 Mehefin 2010, cytunodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad i gyfeirio'r Mesur arfaethedig at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 (“y Pwyllgor”) er mwyn ystyried ei egwyddorion cyffredinol (Cyfnod 1), yn unol â Rheol Sefydlog 23.21. Cytunodd, hefyd, fod yn rhaid i'r Pwyllgor adrodd yn ôl ar Mesur arfaethedig erbyn 22 Hydref 2010. Wedi hynny, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar estyniad o ddeuddydd, gan ei gwenudd yn foynnol i'r Pwyllgor adrodd yn ôl erbyn 26 Hydref 2010.

## *Amodau craffu*

3. Yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor ar 17 Mehefin 2010, cytunwyd ar y fframwaith a ganlyn ar gyfer craffu ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig:

Ystyried:

- i) yr angen am Fesur arfaethedig i ddarparu'r amcanion a nodwyd:

‘gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru a'r Prif Weinidog i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (y Confensiwn) a'i Brotocolau Dewisol, wrth wneud penderfyniadau strategol am sut i arfer swyddogaethau sy'n arferadwy ganddynt.’
- ii) a yw'r Mesur arfaethedig yn cyflawni'r amcanion a nodwyd;
- iii) y prif argymhellion a nodir yn y Mesur arfaethedig ac a ydynt yn briodol i ddarparu'r amcanion;

---

<sup>1</sup> Cofnod y Trafodion. 14 Mehefin 2010, ar gael yn <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-chamber/bus-chamber-third-assembly-rop.htm?act=dis&id=186566&ds=6/2010#4>

(Sylwer: oni nodir yn wahanol, bydd unrhyw gyfeiriadau eraill at Y Cofnod yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at drafodion Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5)

<sup>2</sup> Cyfarfod Llawn o Gynulliad Cenedlaethol Cymru

- iv) y rhwystrau posibl o ran gweithredu'r darpariaethau allweddol ac a yw'r Mesur arfaethedig yn eu hystyried;
- v) safbwyntiau rhanddeiliaid a fydd yn gorfod gweithio gyda'r trefniadau newydd.

### *Trefniadau'r Pwyllgor*

4. Cyhoeddodd y Pwyllgor alwad gyffredinol am dystiolaeth a gwahoddwyd rhanddeiliaid allweddol, yn bennaf o fewn maes sefydliadau plant a phobl ifanc, i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i gynorthwyo gwaith y Pwyllgor. Ceir rhestr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar dudalen 70.
5. Cyhoeddodd y Pwyllgor holiadur hefyd i gasglu barn plant a phobl ifanc am y Mesur arfaethedig. Ceir crynodeb o'u hymatebion ar dudalen 72.
6. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan nifer o dystion, a cheir y manylion ar dudalen 68.
7. Mae'r adroddiad canlynol yn cyfleu casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd wrth wneud ei waith. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd.

## 2. Cefndir

---

### *Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol i wneud y Mesur arfaethedig*

8. Caiff y prif bŵer i alluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud Mesur ynghylch plant a phobl ifanc ei gynnwys ym mater 15.6 yn Rhan 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n ymwneud â chydweithredu a threfniadau i ddiogelu a hybu lles plant neu bobl ifanc.

### *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*

9. Mae'r Mesur arfaethedig yn ymwneud â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a dyma'r Mesur deddfwriaethol gweithredol cyntaf yn y DU i gael ei wneud ar lefel ddatganoledig yn hytrach nag ar gyfer y DU gyfan.

10. Os caiff y Mesur arfaethedig ei gymeradwyo, Cymru fydd y wlad gyntaf yn y DU i integreiddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gyfraith ddomestig.

### *Memorandwm Esboniadol*

11. Mae'r Memorandwm Esboniadol<sup>3</sup> a ddaw gyda'r Mesur yn nodi:

“Mae'r Mesur arfaethedig yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru a'r Prif Weinidog i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (y Confensiwn) a'i Brotoolau Dewisol, wrth wneud penderfyniadau strategol am sut i arfer swyddogaethau sy'n arferadwy ganddynt. At ddibenion y Confensiwn, ystyr "plant" yw'r rheini sy'n iau na 18 oed.”

12. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio:

“Mae'r Mesur arfaethedig hefyd yn gwneud darpariaeth gysylltiedig ynghylch:

- paratoi cynllun plant;

---

<sup>3</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Memorandwm Esboniadol ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)*

- adroddiadau ynglŷn â chydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol;
- hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol;
- diwygio deddfwriaeth i roi effaith bellach neu effaith well i'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol; ac
- ymgynghori ar gymhwysiad posibl y Mesur arfaethedig i bobl sydd wedi troi'n 18 oed, ond heb droi'n 25 oed."



### 3. Egwyddorion Cyffredinol a'r angen am deddfwriaeth

---

#### *Cefndir*

13. Diben y Mesur arfaethedig yw gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru a Phrif Weinidog Cymru i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotocolau Dewisol, wrth wneud penderfyniadau strategol am sut i arfer swyddogaethau sy'n arferadwy ganddynt. I bobl ifanc o dan 18 oed y mae'r hawliau yn y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol yn berthnasol.

14. Mae'r Mesur arfaethedig yn gwneud darpariaeth berthnasol hefyd am:

- baratoi cynllun plant;
- adroddiadau am gydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotocolau Dewisol;
- hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol;
- diwygio deddfwriaeth er mwyn rhoi effaith bellach neu effaith well i'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol; ac
- ymgynghori ar y posibilrwydd o gymhwyso'r Mesur arfaethedig i bobl ifanc sydd wedi cyrraedd 18 oed, ond nad ydynt wedi cyrraedd 25 oed.

#### *Tystiolaeth gan dystion*

15. Tystiolaeth gadarnhaol a gafwyd ar y cyfan mewn cysylltiad ag egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig. Roedd y rhan fwyaf o'r dystion a'r rhai a ymatebodd yn croesawu'r Mesur arfaethedig ac yn cytuno bod angen deddfwriaeth i ymestyn cymhwyso Confensiwn y Cenhedloedd unedig ar Hawliau'r Plentyn a, thrwy hynny, gryfhau hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru.

16. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn cefnogi'r bwriad i gyflwyno deddfwriaeth yn y maes hwn. Dywedodd :

“We think that it demonstrates leadership and a clear intention to enshrine the UNCRC in legislation ..... It certainly strengthens and protects the rights of children and young people in Wales.”<sup>4</sup>

17. Roedd Grŵp Monitro’r Confenswin yn credu ei bod yn hen bryd cael deddfwriaeth:

“...we think that, 18 years after the UNCRC was signed up to by the UK Government, taking these steps to protect and promote the human rights of children in Welsh legislation is well overdue.”<sup>5</sup>

18. Mae llawer o sefydliadau, hefyd, wedi cydnabod mai Cymru yw’r rhan gyntaf o’r Deyrnas Unedig i gynnwys y ddeddfwriaeth hon mewn cyfraith ddomestig, a chroesawyd y cam hwn. Dywedodd Grŵp Monitro’r Confensiwn:

“We know that good progress has been made in Wales and that Wales has been unique in the UK in showing a commitment to promote children’s rights through policy making and, more recently, through referring to the United Nations Convention on the Rights of the Child in legislation.”<sup>6</sup>

19. Roedd Comisiynydd Plant Cymru yn cydnabod mai’r Mesur arfaethedig fyddai’r cyntaf yn y DU”<sup>7</sup> ac aeth ymlaen i ddweud: “I think that there are several pairs of eyes outside Wales watching what we are doing, and it could have quite an impact across the UK.”<sup>8</sup>

20. Fodd bynnag, mae rhai ymatebwyr wedi mynegi pryder o ran, a fydd y Mesur arfaethedig, fel y mae wedi’i ddrafftio, yn symud yr agenda hawliau plant yn ei blaen. Er bod Grŵp Monitro’r Confensiwn yn croesaawu’r ddeddfwriaeth, dywedodd:

“it will not improve or strengthen the rights of the child as such, because no new rights or obligations are contained in the proposed legislation.”<sup>9</sup>

---

<sup>4</sup> Y Cofnod, paragraff 160, 1 Gorffennaf 2010

<sup>5</sup> Y Cofnod, paragraff 15, 1 Gorffennaf 2010

<sup>6</sup> ibid, paragraff 13

<sup>7</sup> Y Cofnod, paragraff 154, 8 Gorffennaf 2010

<sup>8</sup> ibid, paragraff 155

<sup>9</sup> Y Cofnod, paragraff 17, 1 Gorffennaf 2010

21. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Comisiynydd Plant: “concerns have been raised ... about whether the Measure as drafted could deliver improved outcomes in terms of upholding the rights of children”<sup>10</sup> a dywedodd y Comisiynydd ei fod yntau’n rhannu’r pryderon hyn.

22. Reodd rhai sefydliadau, hyd yn oed, yn holi a fyddai’r Mesur arfaethedig yn arwain at gam yn ôl o ran hawliau plant yng Nghymru. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, a gafodd ei chydgysylltu gan Ysgol y Gyfraith, dywedodd Prifysgol Abertawe:

“Against this existing backdrop, it is surely already the case that the Welsh Ministers should be paying due regard to the UNCRC when making decisions that engage the UK’s State party obligations of the UNCRC.... This appears, perversely, a step backward rather than forward, since it suggests a limitation on the existing apparent impact on Welsh Ministers of the UNCRC. To produce a progressive impact in law as apparently envisioned when the policy intention was first announced..., we think that the duty needs to be more expansive than this, biting directly on the exercise of Welsh Ministerial functions.”<sup>11</sup>

23. Roedd papur Cyngor Cyfreithiol a gyflwynwyd i’r Pwyllgor yn dweud y byddai’n bosibl dadlau y gallai’r cyfyngiadau a osodir ar y ddyletswydd (dyletswydd sylw dyledus i benderfyniadau strategol) leihau ei effaith, ac na fyddai hynny’n arwain at wella hawliau plant yng Nghymru o gwbl, neu byddai’n welliant bach iawn.<sup>12</sup>

24. Yn Lloegr a gwledydd datganoledig eraill, lle nad yw’r Confensiwn wedi’i gynnwys mewn deddfwriaeth, nid yw cymhwyso’r Confensiwn wedi’i gyfyngu o gwbl, h.y. sef drwy “benderfyniadau perthnasol” “strategol eu natur”.

25. Er eu bod yn cytuno â’r egwyddorion y tu ôl i’r Mesur arfaethedig, dywedodd yr NASWUT ei fod yn credu y gallai problemau godi o’r arfer sy’n deillio o’r egwyddor, oherwydd yr hyn a gaiff ei ystyried yn ddiffyg cydbwysedd rhwng hawliau plant a’r angen i barchu hawliau ac enw da eraill”. Aeth Mr Phillips ymlaen i ddweud bod hyn yn achosi problemau:

---

<sup>10</sup> CR 5A, Tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>11</sup> CR 23, Tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>12</sup> Papur Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5: LC5(3)-17-10: Gwybodaeth Gyfreithiol

“for teachers and the members whom I represent, it is the practice that has arisen under student voice, learner voice, pupil participation and pupil voice.”<sup>13</sup>

### *Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

26. Esboniodd y Dirprwy Weinidog mai'r rheswm dros y penderfyniad i gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon oedd:

“Our belief, simply put, is that the legislation will better express the will of the National Assembly for Wales. In January 2004, there was unanimous cross-party support for the use of the United Nations Convention on the Rights of the Child as the underpinning basis for policy-making regarding children and young people in Wales. Since 2002, we have been using the seven core aims as the basis for planning services for children and young people locally and at an all-Wales level. However, it has been felt that this has not been as systematic or comprehensive as it may have been and that in using the seven core aims, there may have been a tendency to mask the UNCRC by using the seven core aims as a substitute for the convention.”<sup>14</sup>

Aeth y Dirprwy Weinidog ymlaen i ddatgan y canlynol am y Mesur arfaethedig:

“would enshrine in law a duty for Welsh Ministers to pay due regard to the UNCRC, which takes us a step further into the top level of nations across the world that are committed to the rights of the child.”<sup>15</sup>

27. Wrth ymateb i awgrymiadau nad yw'r Mesur arfaethedig yn datblygu'r agenda hawliau plant a'i fod wedi ei ddrafftio yn wan, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“You will not be surprised, Chair, to hear me say that I do not really concur with that view. On the balance of the evidence

---

<sup>13</sup> Y Cofnod, paragraff 6, 30 Medi 2010

<sup>14</sup> Y Cofnod, paragraff 11, 24 Mehefin 2010

<sup>15</sup> *ibid*, paragraff 14

that you have received and which I have managed to take a look at, it appears to be a minority view.”<sup>16</sup>

28. Dywedodd y Dirprwy Weinidog bod dehongli'r Mesur fel cam yn ôl yn annheg.<sup>17</sup> Aeth ymlaen i ddweud, “[I] strongly reject the argument that we are weakening the position. We are not changing the position; we are putting something that is really quite novel on top of it.”<sup>18</sup>

*Ein barn ni*

**Mae'r Pwyllgor yn nodi'r gefnogaeth a gafwyd i'r mesur hwn ac yn cymeradwyo ymgais Llywodraeth Cymru i gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r protocolau dewisol mewn deddfwriaeth. Felly mae'r Pwyllgor yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig.**

**Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn credu bod angen cryfhau'r Mesur arfaethedig er mwyn cyflawni'r amcan polisi a fwriedir o wella ei amcanion hawliau ar gyfer plant a phobl ifanc.**

---

<sup>16</sup> Y Cofnod, paragraff 10, 7 Hydref 2010

<sup>17</sup> *ibid*, paragraff 16

<sup>18</sup> *ibid*, paragraff 20

## 4. Adran 1 – Y ddyletswydd i dalu sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

---

### *Cefndir*

29. Byddai Adran 1 o'r Mesur arfaethedig yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru a'r Prif Weinidog i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau yn y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol, wrth wneud penderfyniadau strategol am sut i arfer swyddogaethau sy'n arferadwy ganddynt.

### *Tystiolaeth gan dysgion*

30. Dywedodd pump o'r rhai a ymatebodd i'r cais ysgrifenedig am dystiolaeth yn bendodol y dylai 'dyletswydd sylw dyledus' fod yn berthnasol i holl swyddogaethau Llywodraeth Cymru, (dylid nodi bod hyn yn cynnwys Grŵp Monitro Confensiwn y Cenhedloedd Unediga r hawliau'r Plentyn, sef grŵp ymbarel sy'n cynrychioli deg sefydliad).

31. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5, dywedodd Grŵp Monitro'r Confensiwn y dylai'r ddyletswydd i dalu sylw dyledus fod yn berthnasol i'r Gweinidogion wrth weithredu eu swyddogaethau.<sup>19</sup>

32. Mewn dystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol a ddarparwyd ar gyfer y Pwyllgor, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC): "the Measure should be all pervasive and apply to all decisions of the Welsh Ministers and First Ministers."<sup>20</sup>

33. Roedd tystion a gydgysylltwyd gan Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Abertawe yn dadlau'r achos y dylai'r Mesur effeithio ar y sefydliad cyfan yn hytrach nag ar rai agweddau ar waith Gweinidogion Cymru<sup>21</sup>. Wrth gyfeirio at ei thystiolaeth ei hun, dywedodd Ysgol y Gyfraith:

"The paper offers amendments which would replace the 'decisions of a strategic nature' formula by a simple duty on

---

<sup>19</sup> CR 2, Tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>20</sup> CR 3A, Tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>21</sup> CR 23, Tystiolaeth ysgrifenedig

Welsh Ministers to have due regard to the UNCRC when exercising their functions.”<sup>22</sup>

34. Aiff ymlaen i nodi bod y ddyletswydd i dalu sylw dyledus y cyfeirir ati yn rhan 1 o'r Mesur arfaethedig yn seiliedig ar y model economaidd-cymdeithasol yn adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a'i dadl yw nad dyma'r model cywir, gan ddatgan mewn tystiolaeth ysgrifenedig:

“The question for the National Assembly for Wales, dealing with the draft Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure, is whether the ‘socio-economic duty’ in section 1 Equality Act 2010 is the right model for seeking to ‘embed the UNCRC in law’ in relation to devolved government in Wales. We think it is not.”<sup>23</sup>

35. Mae'r Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) yn datgan bod y geiriad presennol yn ddryslyd ac yn gymhleth, heb fod angen<sup>24</sup> a bod y Mesur:

“in its current form does not allow for the full embedment of the Convention within the legal framework in Wales. This is because the due regard duty currently only applies to ‘decisions of a strategic nature about how to exercise any functions which are exercisable by (Welsh Ministers)’”.<sup>25</sup>

36. Fodd bynnag, mae CLILC yn credu y byddai'n anodd cymhwyso'r ddyletswydd 'sylw dyledus' i bob penderfyniad. Dywedodd:

“It is difficult, because Ministers make decisions on a daily basis in that way, and the proposed Measure needs to be practical and applicable and we need to be clear about its scope. I can understand the concerns about the word 'strategic' and what it will encapsulate, but there are also difficulties in saying 'all decisions'”.<sup>26</sup>

37. Roedd CLILC hefyd yn credu y dylai'r ddyletswydd i dalu sylw dyledus i'r Confensiwn barhau'n hyblyg er mwyn caniatáu i

---

<sup>22</sup> CR 23 Tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>23</sup> ibid

<sup>24</sup> CR 13, Tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>25</sup> ibid

<sup>26</sup> Y Cofnod, paragraff 183, 1 Gorffennaf 2010

Weinidogion Cymru wneud penderfyniadau fesul achos unigol.  
Dywedodd:

“I think that that should be left quite flexible, to look at decisions as and when they come up, because some decisions will relate more closely to children and young people and to the protection of their rights than others. It is quite important to ensure that there is a flexible approach to how we look at what a strategic decision is.”<sup>27</sup>

38. Aeth ymlaen i ddweud:

“Sometimes, having something on the face of a Measure means that you lose a little flexibility. We do not want to see the previous incarnation of this legislation, which listed many policies to which it applied, because you then automatically exclude policies and we certainly do not want that to happen. We want to see the UNCRC being taken into account in a broad range of policies that will impact on children and young people, and not exclude one policy over another.”<sup>28</sup>

39. Mynegodd Grŵp Monitro'r Confensiwn bryderon y byddai'r Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion wneud rhywbeth a gaiff ei wneud ganddynt eisoes, “namely to seek advice and information on how the exercise of their functions could further or undermine or otherwise have an impact on the implementation of the UNCRC.”<sup>29</sup>

40. Aeth ymlaen i ddweud:

“The National Assembly passed a resolution in Plenary in 2004 to adopt the UNCRC as an overarching source of principles when dealing with things that affect children and young people in Wales. So, in a sense, it is a little bit startling, now, in 2010, if Welsh Ministers are thinking that law is required in order to follow that through. That raises some questions.”<sup>30</sup>

---

<sup>27</sup> Y Cofnod, paragraff 176, 1 Gorffennaf 2010

<sup>28</sup> *ibid*, paragraff 189

<sup>29</sup> *ibid*, paragraff 32

<sup>30</sup> *ibid*, paragraff 32



41. Awgrymodd Grŵp Monitro'r Confensiwn welliant yn ystod ymgynghoriad Llywodraeth Cymru cyn y broses ddeddfu ar y Mesur arfaethedig:

“Our little ad hoc group of lawyers offered an amendment to the pre-consultation draft legislation that would have had the effect of removing the word 'relevant', meaning that the duty was simply to have due regard when exercising functions.”<sup>31</sup>

42. Rhoddodd y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynodd Ysgol y Gyfraith Abertawe ar ran y grŵp a gafodd ei gydgyssylltu ganddi ragor o fanylion am y gwelliant hwn a gaiff ei awgrymu i gymryd lle adran 1 (1) fel y mae ar hyn o bryd, sef:

“Rhaid i Weinidogion Cymru, wrth arfer eu swyddogaethau, dalu sylw dyledus i ofynon”<sup>32</sup>

(noder – byddai gan y gwelliant hwn welliant canlyniadol hefyd ar 1(2) a 2(1)(a))

#### *Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

43. Yn ei dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, pan ofynnwyd iddo pam nad oedd y ddyletswydd 'sylw dyledus' hon yn berthnasol i bob penderfyniad, awgrymodd y Dirprwy Weinidog y gallai hyn beri dryswch a bod mewn perygl o wanhau diben y Mesur arfaethedig. Dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai'r 'ddyletswydd sylw dyledus' yn berthnasol i benderfyniadau ar lefel uchel lle y byddai'n bosibl sicrhau'r effaith fwyaf ar gyfer plant.

44. Dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“we are proposing to bring forward a duty that targets the decisions that we think will have the greatest effect on children, and concentrate our resources for having due regard to the UNCRC on those decisions.”<sup>33</sup>

45. Dywedodd hefyd:

“If we encompassed all decisions within the remit of the legislation, we would run the risk of diluting the effect of the

---

<sup>31</sup> Y Cofnod, paragraff 44, 1 Gorffennaf 2010

<sup>32</sup> CR 23, Tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>33</sup> Y Cofnod, paragraff 26, 24 Mehefin 2010

legislation to such an extent that it became a tick-box exercise...However, if we include on the face of the proposed Measure the idea that all decisions that ever come out of the Assembly Government should be bound by the due regard duty, we could get into a situation in which no kind of strategic effect would be driven by this legislation. We would just have administrative staff ticking boxes as they went about their day-to-day business.”<sup>34</sup>

46. Rhoddodd y Dirprwy Weinidog dystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol i'r Pwyllgor ynghylch a fyddai'r ddyletswydd sylw dyledus yn rhoi rhyddid i Lywodraeth y Cynulliad osgoi'r ddyletswydd sylw dyledus pe bai am wneud hynny. Mae'r wybodaeth ychwanegol yn datgan:

“There will be no such freedom. The children’s scheme must set out what the criteria are for identifying decisions of a strategic nature. The Welsh Ministers cannot make the children’s scheme until the Assembly is content with it and has approved it.”<sup>35</sup>

47. Roedd dystiolaeth bellach a gafwyd gan y Dirprwy Weinidog hefyd yn ystyried y byddai cymhwyso'r ddyletswydd yn lleihau effaith y Confensiwn. Mae'r dystiolaeth yn datgan:

“to argue that the proposed application of this duty will limit the influence of the UNCRC is in my view, to misunderstand the effect this duty will have. When *any* function is carried out by *any Minister or official* within the framework of a strategic decision (for example, in policy implementation), it will be carried out against the background of there having been a full consideration of whether that function could be, and is going to be, exercised so as to give greater effect to the 58 substantive rights and obligations in the UNCRC and its Optional Protocols”.<sup>36</sup>

---

<sup>34</sup> Y Cofnod, paragraff 21, 24 Mehefin 2010

<sup>35</sup> Papur Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5: LC(3)-16-10 Papur 4 i'w nodi, 30 Medi 2010

<sup>36</sup> Papur Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5: LC(3)-17-10 Papur 3, 7 Hydref 2010

*Ein barn ni*

**Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y dystiolaeth a roddwyd ac mae'n cytuno bod y geiriad presennol yn ddryslud a chymhleth ac mae'n credu bod yr ymadrodd 'penderfyniadau o natur strategol' yn cyfyngu ac yn gyfyng. Mae'r Pwyllgor yn siomedig nad yw'r 'ddyletswydd sylw dyledus' a osodir ar Weinidogion Cymru yn y Mesur arfaethedig yn cyfateb i'r dyletswyddau a osodwyd arnynt o ran cyfle cyfartal a datblygu cynaliadwy yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n gymwys wrth arfer eu swyddogaethau.**

**Argymhelliad 1:**

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell y caiff y Mesur arfaethedig ei ddiwygio i gynnwys y geiriau canlynol neu eiriau tebyg yn adran 1(1) 'Rhaid i Weinidogion Cymru, wrth arfer eu swyddogaethau, dalu sylw dyledus i ofynion ... [Rhan 1 o'r Confensiwn a'r Protocolau Dewisol fel y nodir yn adran 1(1) o'r Mesur drafft presennol], a bod gwelliannau canlyniadol yn cael eu gwneud i'r Mesur arfaethedig i adlewyrchu'r argymhelliad hwn.**

## 5. Adran 2 – Cynllun y plant

---

### *Cefndir*

48. Mae'r ddyletswydd i roi 'sylw dyledus' wedi'i phlethu â dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud cynllun plant, ac mae adran 2 yn nodi y bydd y cynllun plant yn gorfod nodi:

- y meini prawf y byddant yn eu cymhwyso er mwyn penderfynu pa rai o'u penderfyniadau sy'n benderfyniadau strategol eu natur (fel y nodir yn adran 1 (2)), a
- trefniadau Gweinidogion Cymru at ddiben sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd "sylw dyledus" sy'n ganolog i adran 1.

49. Pwrpas cynllun y plant yw sicrhau tryloywder y prosesau a ddilynir i gydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus, a bod y prosesau hynny yn rhai cadarn, y cânt eu profi drwy ymgynghoriad a bydd yn rhaid iddynt fod yn dderbyniol i'r Cynulliad. Bydd yn rhaid i'r cynllun hefyd nodi meini prawf ynghylch y math o benderfyniadau sy'n strategol eu natur.

### *Tystiolaeth gan dystion*

50. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan dystion a gafodd eu cydgysylltu gan Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Abertawe, fod cynllun y plant yn gosod:

“an additional requirement to produce a formal scheme seems an unnecessary burden of administration, carrying with it a risk that the text of the scheme might become the focus of attention to the detriment of thinking about concrete actions to achieve change”<sup>37</sup>.

51. Os caiff adran 1(1) ei newid i gymhwyso i gael sylw dyledus wrth 'arfer eu swyddogaethau', mae'r dystion hyn yn credu nad yw'n ofynnol cael cynllun y plant.

52. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth arall yn cyfeirio at ddileu Cynllun y Plant. Roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn canolbwyntio ar y ddarpariaeth o dan adran 2(1)(a) sy'n datgan y

---

<sup>37</sup> CR23, Written Evidence

dylai'r cynllun "nodi'r meini prawf y byddant [Gweinidogion Cymru] yn eu cymhwyso er mwyn penderfynu pa rai o'u penderfyniadau sy'n benderfyniadau strategol eu natur".

53. Cafwyd barn gymysg o ran penderfynu pa benderfyniadau sy'n strategol eu natur. Cyflwynodd naw o'r ymgynghoreion a'r tystion eu dehongliadau eu hunain o'r hyn yw ystyr penderfyniau strategol eu natur, ac nid oedd yr un ohonynt yn gyson â'i gilydd. Ceir rhai enghreifftiau isod o'r diffiniadau amrywiol hyn.

54. Dywedodd UNICEF UK bod penderfyniad strategol ei natur yn golygu:

"a decision that sets the direction, course of action and parameters for how to exercise ministerial functions."<sup>38</sup>

55. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy o'r farn mai penderfyniadau strategol eu natur yw'r penderfyniadau hynny sy'n ymwneud â pholisïau, er iddo nodi bod geiriad y Mesur arfaethedig yn ddigon clir ac eang yn ei farn ef.<sup>39</sup>

56. Barn NASUWT yw mai penderfyniad strategol ei natur yw:

"any decision that relates to policies, policy areas or service areas that affect, impact on, or involve children and those that work with, or on behalf of, children and young people"<sup>40</sup>

57. Cafwyd tystiolaeth bellach o'r dryswch hwn gan dystion a gafodd eu cydgysylltu gan Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Abertawe. Cynhaliwyd gweithdy gyda nifer o arbenigwyr ym maes hawliau plant, gan gynnwys academyddion ac ymarferwyr. Cyflwynwyd amrywiaeth o sefyllfaoedd iddynt, ac wrth fabwysiadu methodoleg astudiaeth achos, canfuwyd eu bod yn treulio cryn amser yn ystyried a oedd penderfyniad yn un 'strategol' ai peidio. Dywedwyd:

"A lot of the group's discussion time was spent trying to determine whether the decisions that were being taken within those scenarios fell within the definition of a 'decision of a strategic nature', rather than focusing, as was the real intention

---

<sup>38</sup> CR 6, Tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>39</sup> CR 7, Tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>40</sup> CR 11, Tystiolaeth ysgrifenedig

of the case study, on deciding what rights there were and their implications within the context of the case study itself.”<sup>41</sup>

58. Aethant ymlaen i ddweud: “due to the confusion over what constitutes a ‘strategic decision’, the majority of workshop participants felt that a clear definition of what ‘decisions of a strategic nature’ should be specified on the face of the proposed Measure as opposed to the criteria being set out in the children’s scheme.”<sup>42</sup>

59. Roedd llawer o’r tystion yn cytuno â hyn. Dywedodd y Cynghorydd Alana Davies, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y byddai’n well ganddi weld nifer o enghreifftiau a fyddai’n cael eu hystyried yn benderfyniadau strategol, yn ogystal â rhai na fyddai’n cael eu hystyried yn benderfyniadau strategol.<sup>43</sup>

60. Roedd Plant yng Nghymru o’r farn ei bod yn hanfodol mynd i’r afael â hyn a bod ystyr y cysyniad o ‘benderfyniadau strategol eu natur’ yn cael ei egluro a’i roi ar wyneb y Mesur”.<sup>44</sup>

61. Er mwyn creu deddfwriaeth a fyddai’n hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc ac er mwyn bod yn dryloyw, dywedodd Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru (NYAS) bod angen diffiniad clir o’r hyn yw penderfyniadau ‘strategol eu natur’.<sup>45</sup>

62. O 32 o ymatebion a gafwyd i’r holiadur ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc, roedd 84 y cant o’r farn y dylai’r Mesur arfaethedig ddweud yn union pa fathau o ‘benderfyniadau pwysig’ yr effeithir arnynt.

---


<sup>41</sup> Y Cofnod, paragraff 190, 23 Medi 2010

<sup>42</sup> CR 23, Tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>43</sup> CR 1, Tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>44</sup> CR 19, Tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>45</sup> Y Cofnod, paragraff 102, 23 Medi 2010



“we feel that article 42 should be placed explicitly in the proposed Measure in order to ensure that it is implemented fully. Article 42 talks about a clear effect on the direction of Government, so we feel that putting phrases such as 'widely known', 'active means' and 'adults and children alike' in the proposed Measure would strengthen it. The target should be that all children know about the convention, and we feel that there should be an obligation to assess progress on that. It is very clear what article 42 is trying to get Governments, that have signed up to the convention, to do. Therefore, we very much want to see it being included in the proposed Measure; we see no reason why it should not be.”<sup>109</sup>

143. Roedd yr NSPCC hefyd yn cytuno y dylai Erthygl 42 gael ei chynnwys yn y Mesur arfaethedig. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd:

“We are, however, disappointed that the wording of Article 42 of the Convention has not been entirely replicated in the Measure. In this instance, we disagree with the Welsh Assembly Government's view that “it is not always appropriate to use the wording of international agreements in UK domestic law.” We feel that the duty of Ministers could be more clearly set out.”<sup>110</sup>

144. Fodd bynnag, dywedodd Families Need Fathers: “[we] strongly welcome the embracing of Article 42 of the UNCRC by WAG, and the determination to go further than simple raising awareness of the Articles”.<sup>111</sup>

#### *Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

145. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod ymwybyddiaeth yn isel ac mai rhan o bwrpas y Mesur arfaethedig oedd sicrhau bod plant a phobl ifanc yn deall bod ganddynt hawliau. Dywedodd:

---

<sup>108</sup> CR 2, Tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>109</sup> Y Cofnod, paragraff 105, 1 Gorffennaf 2010

<sup>110</sup> CR 13, Tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>111</sup> CR 9, Tystiolaeth ysgrifenedig

“We all recognise that the levels of awareness are too low. Part of the purpose of the legislation is to alter mindsets...Making children and young people understand that they have a voice and entitlements is central to changing our mindsets with regard to the effects of legislation and decision making upon young people.”<sup>112</sup>

146. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, esboniodd y Dirprwy Weinidog bod llawer o waith wedi dechrau eisoes i fynd i'r afael â'r diffyg ymwybyddiaeth o'r Confensiwn, a dywedodd fod codi ymwybyddiaeth o'r Confensiwn yn un o flaenoriaethau penodol 'Gwneud Pethau'n lawn', sef cynllun gweithredu'r Confensiwn ar gyfer Cymru.<sup>113</sup> Mae'r llythyr yn cynnwys manylion rhai o'r gweithgareddau sydd eisoes wedi digwydd i godi ymwybyddiaeth o'r Confensiwn.

147. Mewn tystiolaeth bellach i'r Pwyllgor, esboniodd Natalie Lancey, un o Gyfreithiwr y Llywodraeth, pam nad oedd Erthygl 42 wedi cael ei gosod yn y Mesur arfaethedig yn ei chyfanrwydd. Dywedodd:

“the UNCRC is an international convention and an agreement, not a piece of legislation...If you are taking international obligations and converting them into a provision and a piece of domestic legislation, it is often not appropriate just to take the exact words and put them in the piece of domestic legislation, because our domestic legislation has to be clear and unambiguous... So, the drafting counsel has taken article 42 and translated it into the language of domestic legislation. Then, as the Deputy Minister has said, it goes further because the duty to promote understanding has been bolted on, so it does not just mention knowledge.”<sup>114</sup>

148. O ran y ffordd o fesur pa mor effeithiol yw'r ddyletswydd i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“it is something that we need to explore as we develop the children's scheme, for instance. Our partner organisations would act as watchdogs with regard to measuring what success looks like in this regard, and the office of the Children's Commissioner springs to mind as being the obvious outside

---

<sup>112</sup> Y Cofnod, paragraff 100, 24 Mehefin 2010

<sup>113</sup> Papur Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5: LC5(3)-17-10: Papur 2

<sup>114</sup> Y Cofnod, paragraff 96, 7Hydref 2010

body to do that. Perhaps we need to explore that further as we develop the scheme.”<sup>115</sup>

149. Fodd bynnag, o ran rhai o’r ffigurau a gyflwynwyd i’r Pwyllgor mewn cysylltiad â lefelau ymwybyddiaeth, dywedodd Marcus Hill, Cynghorwr Polisi Arbenigol:

“It is important to remember with regard to the Funky Dragon research that the question that was actually asked was, ‘Have you been taught about the UNCRC in school?’. We find that many of the surveys that are being undertaken by different people ask different questions; therefore the answers and the proportions that you get are very different.”<sup>116</sup>

### *Ein barn ni*

**Er nad yw Adran 5 yn cynnwys erthygl 42 yn ei chyfanrwydd, mae’r Pwyllgor yn nodi barn y Dirprwy Weinidog bod y ddyletswydd i hybu gwybodaeth o’r Confensiwn yn cael ei hadlewyrchu ddigon yn yr adran hon. Mae’r Pwyllgor yn derbyn hyn ac mae’n teimlo’n dawelach ei feddwl o weld bod y gwaith o godi ymwybyddiaeth o’r Confensiwn eisoes wedi dechrau.**

---

<sup>115</sup> Y Cofnod, paragraff 104, 24 Mehefin 2010

<sup>116</sup> Ibid, paragraff 102



## 9. Adran 6 – Pŵer i ddiwygio deddfwriaeth ac ati

---

### *Cefndir*

150. Mae Adran 6 o'r Mesur arfaethedig yn cynnwys darpariaeth i Weinidogion Cymru, drwy is-ddeddfwriaeth, ddiwygio deddfwriaeth neu offerynnau uchelfreiniol. Mae'r adran yn nodi'r cyfyngiadau ar y pŵer, ond caiff Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig, Mesurau'r Cynulliad ac is-ddeddfwriaeth (gan gynnwys rheoliadau a gorchmynion) a wneir o dan y naill neu'r llall eu diwygio.

### *Tystiolaeth gan dystion*

151. Dywedodd y Comisiynydd Plant fod adran 6 yn ymbweru Gweinidogion Cymru i ddiwygio unrhyw ddeddfwriaeth er mwyn rhoi mwy o effaith i'r confensiwn. Nododd y Comisiynydd Plant fod y ddarpariaeth yn adran 6 yn debyg i'r ddarpariaeth yn adran 10 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998, sy'n caniatáu i Weinidogion y Deyrnas Unedig wneud gorchmynion i ddiwygio deddfwriaeth nad yw'n gydnaws â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a nododd y Comisiynydd Plant fod y pŵer yn yr achos hwn yn ddarostyngedig i'r penderfyniad cadarnhaol yn nau Dŷ'r Senedd. Barn y Comisiynydd Plant yw:

“the power under section 6 of the proposed measure should similarly be subject to affirmative resolution of the Assembly. This is because, whilst the power gives a (theoretically at least) more convenient and speedy way of updating legislation, nevertheless, it is ultimately a legislative function, not an executive one and of a kind needs proper democratic scrutiny.”<sup>117</sup>

152. O ran y ddarpariaeth i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol drwy is-ddeddfwriaeth, dywedodd NSPCC Cymru ei bod yn fodlon â darpariaeth Adran 6. Fodd bynnag, dywedodd NSPCC Cymru hefyd: “this is a significant power and should be subject to extensive scrutiny by the Assembly.”<sup>118</sup>

153. Mynegodd Christian Action Research and Education bryderon y gallai'r pwerau a gaiff eu cynnwys o dan adran 6, i wneud unrhyw

---

<sup>117</sup> CR 5, Tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>118</sup> CR 13, Tystiolaeth ysgrifenedig

newid i ddeddfwriaeth, gael effaith bellgyrhaeddol os nad oes digon o atebolrwydd o fewn y Cynulliad. Dywedodd hefyd:

“The breadth of the issues dealt with by the Convention must raise concerns that as currently drafted the Measure has scope to effectively give the Minister to much of a blank check. It is conceivable that some changes could be proposed with quite far reaching consequences and these should be subject to full Assembly scrutiny”.<sup>119</sup>

154. Roedd Grŵp Monitro'r Confensiwn hefyd yn credu bod y pŵer a roddir o dan adran 6 yn bŵer pwysig, a chytunodd y dylai hyn fod yn ddarostyngedig i'r penderfyniad cadarnhaol, ond roedd yn siomedig nad oedd gweithdrefn ar gyfer Aelodau wneud gwelliannau i is-ddeddfwriaeth.<sup>120</sup>

155. Ymateb Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ynghylch y darpariaethau yn adran 6 oedd: “a reasonable way to update the Measure.”<sup>121</sup>

#### *Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

156. Mewn llythyr at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol, dywedodd y Dirprwy Weinidog bod posibl y gallai'r pŵer yn adran 6 gael ei ddefnyddio i wneud gwelliannau i bwerau Gweinidogion Cymru sydd wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth arall. Aeth ymlaen yn ei lythyr i amlinellu'r unig ffordd y gallai'r pŵer yn adran 6 gael ei ddefnyddio:

“following a report by the Welsh Ministers under the proposed Measure which concludes that it would be desirable to amend legislation or prerogative instruments to give further or better effect to the UNCRC and its Optional Protocols.”<sup>122</sup>

157. Ystyriodd y Pwyllgor, hefyd, y dystiolaeth a roddodd y Dirprwy Weinidog i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol, a dywedodd Natalie Lancey, un o Gyfreithwyr y Llywodraeth:

“Section 6 provides the power to amend legislation to give further and better effect to the UNCRC after the Welsh Ministers

---

<sup>119</sup> CR 12, Tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>120</sup> CR2, Tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>121</sup> CR 10, Tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>122</sup> Papur y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol: CA(3)-18-10: Papur 5: Ymateb y Gweinidog

have issued one of their reports under the legislation and concluded that that is desirable. There is a specific consultation duty on the Welsh Ministers to consult before the power is exercised, and the exercising of the power is held subject to affirmative procedure in the Assembly. Therefore, the draft Order would have to be laid before the Assembly, and the Assembly would have to approve it. If the Assembly does not approve it, the Welsh Ministers cannot make the Order.”<sup>123</sup>

*Ein barn ni*

### **Argymhelliad 7:**

**Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r adroddiad gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ar yr adran hon, ac hefyd yn argymhell y dylai unrhyw gynigion i ymgynghori cyn gwneud gorchymyn o dan adran 6(4) gael eu gosod gerbron y Cynulliad; byddai hyn yn caniatáu i Bwyllgorau ac Aelodau'r Cynulliad roi ystyriaeth bridol iddynt. (*Gan greu gweithdrefn uwchgadarnhaol mewn gwirionedd*)**

---

<sup>123</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol: Y Cofnod, paragraff 39, 1 Gorffennaf 2010

## 10. Adran 7 – Cymhwyso'r mesur i bobl ifanc

---

### *Cefndir*

158. Mae Adran 7 o'r Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried, a nodi yn eu cynllun plant, eu cynigion ar gyfer ymgynghori ymghylch a ddyldi derbyn y canlynol, i ba raddau a pha welliannau y dylid eu gwneud:

- (i) gallai gofynion y Confensiwn a'i BroTOCOLAU Dewisol fod yn berthnasol i bobl sydd wedi cyrraedd 18 oed ond nad ydynt eto yn 25 oed;
- (ii) gellid cymhwyso'r Mesur arfaethedig i'r grŵp oedran hwnnw.

159. Mae'r Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad o'u casgliadau ar y materion uchod.

160. Mae'r Mesur arfaethedig yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru lunio gorchymyn sy'n cymhwyso darpariaethau'r Mesur arfaethedig i'r grŵp oedran hwnnw, gydag addasiadau os yw'n briodol. Bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi ac ymgynghori ar ddrafft o'u gorchymyn, a bydd yn rhaid dilyn y weithdrefn gadarnhaol yn y Cynulliad mewn perthynas ag ef.

### *Tystiolaeth gan dystion*

161. Ceir sawl barn wahanol o ran cymhwyso'r Mesur arfaethedig i bobl sydd wedi cyrraedd 18 oed ond nad ydynt eto yn 25 oed. Mae dadleuon cryf wedi cael eu cyflwyno o blaid ac yn erbyn cynnwys y grŵp oedran hwn. O ran y rhai sydd o blaid cynnwys pobl ifanc hŷn, maent yn awgrymu cynnwys grwpiau penodol o bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed sy'n agored i niwed yn hytrach na phob person ifanc yn y grŵp hwn.

162. Mae Grŵp Monitro'r Confensiwn, Comisiynydd Plant Cymru, yr NSPCC, Plant yng Nghymru a CLILC yn erbyn cynnwys pobl ifanc rhwng 18 a 24 oed yn y Mesur arfaethedig.

163. Mae Grŵp Monitro'r Confensiwn yn erbyn cynnwys pobl ifanc rhwng 18 a 24 oed yn y Mesur arfaethedig. Er ei fod yn cydnabod anghenion rhai oedolion ifanc sy'n agored i niwed, roedd yn credu:

“the UNCRC in itself is an instrument to safeguard and protect those aged under 18. It cannot be applied to people over 18, and it would be wholly inappropriate to put it within this legislation.”<sup>124</sup>

164. Roedd Comisiynydd Plant Cymru a CLILC yn cytuno na ddylai pobl rhwng 18 a 24 oed gael eu cynnwys a bod y grŵp hwn yn cael ei ddiogelu gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Roedd y ddau dyst o'r farn y byddai cynnwys pobl rhwng 18 a 24 oed yn arwain at fwy o ddryswch. Dywedodd y Comisiynydd Plant:

“the UN Convention on the Rights of the Child relates to children up to the age of 18. The vulnerability of age is what defines the UN convention...The UN convention is not designed for 18 to 24-year-olds, but for children up to the age of 18.”<sup>125</sup>

165. Dywedodd hefyd:

“many 18 to 24-year-olds are vulnerable, but it is the Human Rights Act 1998 and other legislation that is in place for them. If there is an issue about redress—and the proposed Measure includes 18 to 24-year-olds—it becomes incredibly confusing and does not stand up, legally.”<sup>126</sup>

166. Dywedodd CLILC:

“Time and again, when we have looked the Assembly Government’s work, we have seen a constant confusion, with different age ranges for different policies, and I think that this would add to that confusion. We need some clarity here. As I said, the key issue here is that as soon as someone turns 18, the Human Rights Act 1998 kicks in; before that, they are covered by the UNCRC. It could get very confusing if we were to look at extending the UNCRC’s provisions to cover those aged 18 to 24.”<sup>127</sup>

167. Cyflwynodd UNICEF UK, Cymorth i Ferched Cymru a'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol (NYAS) achos dros gynnwys pobl ifanc rhwng 18 a 24 oed.

---

<sup>124</sup> Y Cofnod, paragraff 113, 1 Gorffennaf 2010

<sup>125</sup> Y Cofnod, paragraff 240, 8 Gorffennaf 2010

<sup>126</sup> *ibid*, paragraff 241

<sup>127</sup> Y Cofnod, paragraff 224, 1 Gorffennaf 2010

168. Dywedodd UNICEF UK:

“One thing that we notice here is that it has been public policy for some time to look at least at some aspects of welfare for children from birth to 25, and I understand that some entitlements are the same for those aged from 11 to 25. So, within that context, we can see the rationale and why you would want to align some of those policies with this proposed Measure.”<sup>128</sup>

169. Dywedodd Cymorth i Ferched Cymru y byddai cynnwys pobl ifanc rhwng 18 a 24 oed yn gwneud synnwyr:

“[it] would seem to make sense...to ensure consideration is given to a young person’s continuing vulnerabilities when she or he reaches adulthood.”<sup>129</sup>

170. Roedd NYAS yn cytuno, ac yn credo y byddai llawer o bobl ifanc yn cael budd o’r Mesur arfaethedig, yn arbennig rhai grwpiau o bobl ifanc:

“we would suggest strongly that young people who are leaving the care system and young people with disabilities who are going through the transitional process between children and adult services would benefit significantly from having this piece of legislation take them into account.”<sup>130</sup>

171. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cytuno â’r cysyniad o geisio diogelu oedolion sy’n agored i niwed ond yn holi pa mor ymarferol fyddai cynnwys grwpiau penodol sy’n agored i niwed.<sup>131</sup>

*Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

172. Esboniodd y Dirprwy Weinidog bod adran 7 yn dal gafael ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin â phlant a phobl ifanc: “[since] 2000, with regard to policy in Wales has really looked at the children and young people bracket, which is 0 to 25-years-old”<sup>132</sup>

---

<sup>128</sup> Y Cofnod, paragraff 37, 15 Gorffennaf 2010

<sup>129</sup> CR 15, Tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>130</sup> Y Cofnod, paragraff 147, 23 Medi 2010

<sup>131</sup> CR 7, Tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>132</sup> Y Cofnod, paragraff 110, 24 Mehefin 2010

173. Esboniodd y Dirprwy Weinidog hefyd fod y Mesur arfaethedig yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i gymhwyso'r Confensiwn i blant rhwng genedigaeth a 18 oed, ond bod y Mesur arfaethedig hefyd:

“commits us to consider and consult as to whether any part of the proposed Measure, with modifications, should also be applied to the 18 to 24 age group. In other words, we have not shut the door on this, because there is a dissonance between the way that the United Nations does things and the way that the Assembly Government has been doing things over the last 10 years. There are strengths to both arguments.”<sup>133</sup>

174. Esboniodd Marcus Hill, Cynghorwr Polisi Arbenigol:

“The proposed Measure offers the opportunity to consult on whether it should apply or what else we could possibly put in place to address that gap in a common way, given that this is not necessarily just an UNCRC Wales proposed Measure—it is the Proposed Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure. That is trying to tie the two together to reflect our policy position in Wales as well as take forward what the UN committee has asked us to take forward.”<sup>134</sup>

175. Esboniodd y Dirprwy Weinidog fod y Mesur arfaethedig yn hyblyg ac yn caniatau i Weinidogion Cymru:

“apply any part of it to 18 to 24-year-olds, so the flexibility is there. We might want to continue with that flexibility being handed to Ministers and for them to be able to say 'For this part, we've really got to include people up to the age of 25'. That power would be subject to an affirmative procedure in the Assembly, so it would not just be a Minister, but the Assembly as a whole, that would have a say in that.”<sup>135</sup>

176. Wrth wynebu'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor o ran cynnwys pobl ifanc rhwng 18 a 24 oed, neu beidio, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“The arguments are understandable and are not foolish, but they miss the unique aspect of the way that we have done

---

<sup>133</sup> Y Cofnod, paragraff 111, 24 Mehefin 2010

<sup>134</sup> *ibid*, paragraff 117

<sup>135</sup> *ibid*, paragraff 112

things in Wales for some considerable time now. Throughout our policy relating to children and young people, we have included that 18-24 age group.”<sup>136</sup>

177. Cafodd y Dirprwy Weinidog ei holi a oedd wedi ystyried defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol i arfer pwerau o dan adran 8. Ei ymateb oedd:

“it is not something that would make me throw my hands up in horror”<sup>137</sup>.

178. Dywedodd Natalie Lancey, un o Gyfreithwyr y Llywodraeth nad oes gweithdrefn benodol ar gyfer y weithdrefn uwchgadarnhaol, ond dywedodd:

“We have built a fair amount of consultation into section 7 at the moment. Welsh Ministers have to set up the children’s scheme and the proposals for consulting. They then have to publish a report with their conclusions. Then, they have to do the consultation and then lay their report and conclusions before the Assembly. Then, if they decide to go ahead, and make an Order applying some part of the Measure to the older age group, they have to publish a draft Order and go through a consultation process. At the end of all that, the Assembly gets to decide whether to approve it or not. Therefore, there are things built into it that make it more than an affirmative procedure—it bolts on extra consideration mechanisms to the affirmative procedure.”<sup>138</sup>

*Ein barn ni*

**Mae'r Pwyllgor wedi ystyried yr holl dystiolaeth yn ofalus o ran cymhwyso'r Mesur arfaethedig i bobl rhwng 18 a 24 oed, ac mae o'r farn bod y safbwyntiau gwahanol yn cyfleu dadleuon cadarn o'r ddwy ochr. Fodd bynnag, gan nad oes cytundeb glir, mae'r Pwyllgor yn fodlon i Lywodraeth Cymru gadw'r sefyllfa fel y mae o ran cynnwys pobl rhwng 18 a 24 oed o fewn cwmpas y Mesur arfaethedig.**

---

<sup>136</sup> ROP, paragraff 100, 7 Hydref 2010

<sup>137</sup> Ibid, paragraff 119

<sup>138</sup> Y Cofnod, paragraff 120, 7 Hydref 2010



## **Argymhelliad 8**

**Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r argymhelliad a wnaeth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ac yn cytuno y dylai unrhyw orchymyn a wneir o dan yr adran hon fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn uwchgadarnhaol.**

## 11. Adran 8 – Y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn

---

### *Cefndir*

179. Mae Adran 8 yn rhoi effaith i'r Atodlen, sy'n nodi'r hawliau a'r rhwymedigaethau sylfaenol tuag at blant, sydd wedi'u cynnwys yn y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol.

### *Tystiolaeth gan y tystion*

180. Gan nad oes gan y Cynulliad bwerau mewn cysylltiad â brwydrau arfog ac mai ychydig iawn o bwerau sydd ganddo mewn cysylltiad â gwerthu plant, puteinio plant a phornograffi plant, gofynnwyd i'r rhai a ymatebodd i'r ymchwiliad tybed a ddylai'r protocolau hyn gael eu cynnwys yn y Mesur arfaethedig. Roedd y dystiolaeth a gafwyd, ar y cyfan, yn cefnogi cynnwys y protocolau dewisol hyn ar wyneb y Mesur arfaethedig yn Rhan 2 o'r Atodlen.

181. Roedd Grŵp Monitro'r Confensiwn yn gryf o blaid cynnwys y protocolau dewisol hyn ar wyneb y Mesur arfaethedig yn hytrach na chyfeirio atynt ar wahân. Dywedodd:

“the protocols should be included on the face of the Measure – to make clear those principles will be part of domestic law in Wales. Even though Assembly powers would be limited in respect of these protocols, much preventative action and work to promote rights can still take place”<sup>139</sup>

182. Roedd UNICEF UK<sup>140</sup> a Cymorth i Ferched Cymru<sup>141</sup> yn falch o weld y protocolau dewisol yn cael eu hymgorffori.

183. Roedd Families Need Fathers o'r farn na ddylai'r Mesur arfaethedig gynnwys testun rhai adrannau o'r Confensiwn a hepgor eraill.<sup>142</sup>

184. Roedd yr NSPCC yn cytuno ac roedd o'r farn bod cynnwys y protocolau dewisol yn anfon neges gref i'r Cenhedloedd Unedig bod egwyddorion a darpariaethau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar

---

<sup>139</sup> CR 2, Tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>140</sup> CR 6, Tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>141</sup> CR 15, Tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>142</sup> CR 9, Tystiolaeth ysgrifenedig

Hawliau'r Plentyn yn cael eu hymgorffori mewn cyfraith ddomestig yng Nghymru.<sup>143</sup>

185. Fodd bynnag, roedd Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf o'r farn na fyddai angen cynnwys y testun gwirioneddol ar wyneb y Mesur arfaethedig pe bai'r Protocolau Dewisol yn cael eu cyfeirio atynt yn gywir.<sup>144</sup>

186. Mae Adran 8 hefyd yn cynnwys y ddarpariaeth i Weinidogion Cymru wneud gwelliannau i'r Mesur drwy orchymyn. Mae adran 10 yn datgan:

“10(3) A statutory Instrument containing an order under section 8 must be laid before the Assembly”

187. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nododd y Comisiynydd Plant bod pŵer adran 8:

“[is] similar to the power of UK Ministers to extend the HRA to cover protocols under section 1(4) of the HRA, which is again subject to affirmative resolution by both Houses of Parliament (see section 20(4) HRA). Once more, democratic control seems appropriate over this exercise by the Executive of a legislative function”.<sup>145</sup>

188. Roedd Grŵp Monitro'r Confensiwn o'r farn bod y pŵer yn llai trafferthus gan ei fod yn ymwneud â diweddaru'r Mesur i adlewyrchu newidiadau yn y rhwymedigaethau a osodir ar Bartion y Wladwriaeth i'r Confensiwn neu ei Brotocolau Dewisol, ond mae hefyd yn datgan:

“there would be some merit in applying some degree of control by the Assembly if only to ensure the opportunity for focus and debate”.<sup>146</sup>

189. Fodd bynnag, dywedodd Families need Fathers fod hyn yn ffordd resymol o ddiweddaru'r Mesur.<sup>147</sup>

---

<sup>143</sup> CR 13, Tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>144</sup> CR 14, Tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>145</sup> CR 5, Tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>146</sup> CR 2, Tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>147</sup> CR9, Tystiolaeth ysgrifenedig

### *Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

190. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod y protocolau dewisol wedi'u cynnwys yn y Mesur arfaethedig er mwyn sicrhau tryloywder felly roedd yn glir pa hawliau a rhwymedigaethau sylfaenol y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus iddynt. Esboniodd Natalie Lancey, un o Gyfreithwyr y Llywodraeth:

“we have taken all of the substantive rights and obligations that apply to the UK and put them in the Proposed Measure, because we thought that, once we had started down the road of not including particular substantive rights, because we thought that Welsh Ministers could have limited effect in respect of them, we were starting to construct something of a piecemeal version of the UNCRC”<sup>148</sup>

191. Wrth gael ei holi pam roedd adran 8 o'r Mesur arfaethedig fel y mae'r ddeddfwriaeth wedi'i drafftio ar hyn o bryd, i bob pwrpas yn amddifadu'r Cynulliad o'r gallu i graffu ar welliannau,<sup>149</sup> dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“the thinking is that it would be inappropriate for the Assembly to be able to refuse to approve or annul the proposed Measure in order to keep it in line with the UNCRC. In other words, we are not the signatory to the UNCRC; we are signed up to the UNCRC through the United Kingdom. It would not be a matter for us to alter through that kind of mechanism. It is not within our remit so to do.”<sup>150</sup>

### *Ein barn ni*

**Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y dystiolaeth ac mae'n fodlon i'r Protocolau Dewisol aros ar wyneb y Mesur arfaethedig.**

### **Argymhelliad 9**

**Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r argymhelliad a wnaeth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ac yn cytuno y dylai unrhyw orchymyn a wneir o dan yr adran hon, i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol, fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.**

---

<sup>148</sup> Y Cofnod, paragraff 124, 24 Mehefin 2010

<sup>149</sup> Y Cofnod, paragraff 124, 7 Hydref 2010

<sup>150</sup> *ibid*, paragraff 125

## Tystion

---

192. Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar yn <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-perm-leg/bus-committees-third-lc5-agendas.htm>

### *24 Mehefin 2010*

Huw Lewis AC                      Y Dirprwy Weinidog dros Blant, Llywodraeth  
Cynulliad Cymru

### *1 Gorffennaf 2010*

Jane Williams                      Ysgol y Gyfraith, Abertawe (Grŵp Monitro'r  
Confensiwn \*)

Sean O' Neil                        Plant yng Nghymru (Grŵp Monitro'r  
Confensiwn)

Trudy Aspinwall                   Achub y Plant (Grŵp Monitro'r Confensiwn)

Darren Bird                        Y Ddraig Ffyncci (Grŵp Monitro'r Confensiwn)

Naomi Alleyne                    Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Daisy Seabourne                Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

### *8 Gorffennaf 2010*

Keith Towler                      Comisiynydd Plant Cymru

### *15 Gorffennaf 2010*

Dragan Nastic                    UNICEF UK

### *23 Medi 2010*

Darren Bird                        Y Ddraig Ffyncci

Bethan Adshead                Cynrychiolydd Pobl Ifanc – Y Ddraig Ffyncci

\*Mae aelodaeth Grŵp Monitro'r Confensiwn yn cynnwys: Achub y Plant Cymru, Adran Iechyd Plant Prifysgol Caerdydd, Barnardos Cymru, Canolfan Materion Cyfreithiol Cymru Prifysgol Aberystwyth, Gweithredu dros Blant, NACRO Cymru, NSPCC Cymru, Plant yng Nghymru, Y Ddraig Ffyncci ac Ysgol y Gyfraith Prifysgol Abertawe.

Jess Peters	Cynrychiolydd Pobl Ifanc – Y Ddraig Ffyn-ci
Nathan Flanagan	Cynrychiolydd Pobl Ifanc – Y Ddraig Ffyn-ci
Sharon Lovell	Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol
Debbie Singleton	Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol
Jane Williams	Ysgol y Gyfraith, Abertawe (Cydgysylltwyd y dystiolaeth a'r tystion gan Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Abertawe)
Dr Osian Rees	Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Bangor (Cydgysylltwyd y dystiolaeth a'r tystion gan Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Abertawe)
Dr Simon Hoffman	Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Abertawe (Cydgysylltwyd y dystiolaeth a'r tystion gan Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Abertawe)
Emyr Lewis	Cyfreithwyr Morgan Cole (Cydgysylltwyd y dystiolaeth a'r tystion gan Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Abertawe)
<i>30 Medi 2010</i>	
Rex Phillips	Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)

## Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

---

193. Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/business-legislation-measures-rightsofchildren/consultation-res-log.htm>

<i>Enw / Sefydliad</i>	<i>Cyfeirnod</i>
Y Cynghorydd Alana Davies, Aelod o'r Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc ac Aelod o Ward Canol Dwyrain Porthcawl, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	CR 1
Grŵp Monitro Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Y Confensiwn )	CR 2
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)	CR 3
Tystiolaeth yschwanegol, CLILC	CR 3A
Y Gymdeithas Athrawon a Darlithwyr (ATL Cymru)	CR 4
Comisiynydd Plant Cymru	CR 5
UNICEF UK	CR 6
Tystiolaeth ychwanegol, UNICEF UK	CR 6A
Tystiolaeth ychwanegol, UNICEF UK	CR 6B
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	CR 7
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW)	CR 8
Tystiolaeth ychwanegol, HEFCW	CR 8A
Families need Fathers Cymru	CR 9
Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Conwy	CR 10
Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)	CR 11
NASUWT - Atodiad A	CR 11A
Christian Action Research and Education (CARE)	CR 12
Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC)	CR 13

Margaret Foster, Cyngor Bwrdeistref Lleol Cwm Taf	CR 14
Cymorth i Ferched Cymru	CR 15
Cynghrair Efengylaidd Cymru	CR 16
Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS)	CR 17
Ymddiriedolaeth GIG Felindre	CR 18
Plant yng Nghymru	CR 19
Care for the Family	CR 20
Y Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru	CR 21
Tina Sava (Ymateb ar Facebook)	CR 22
Tystiolaeth a thystion a gydgysylltwyd gan Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Abertawe)	CR 23



## Crynodeb o'r dystiolaeth a gafwyd i'r holidur plant a phobl ifanc


---

194. Gan fod y Mesur arfaethedig yn ymwneud â hawliau plant a phobl ifanc, cytunodd y Pwyllgor i gyhoeddi holiadur ar gyfer plant a phobl ifanc. Roedd yr holiadur ar gael drwy dudalen rhynggrwyd y pwyllgor ac fel copi called. Anfonwyd linc i'r holiadur at wahanol sefydliadau pobl ifanc a chafodd ei ddefnyddio gan yr adran cysylltiadau allanol mewn digwyddiadau yn ystod yr haf, gan gynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nglynebwy, Eisteddfod Llangollen a Sioe Amaethyddol Cymru.

195. Cafodd y Pwyllgor gyfanswm o 32 ymateb i'r holiadur a gyhoeddwyd ar 23 Mehefin 2010, gyda dyddiad cau o 27 Awst 2010.


### *Crynodeb o'r ymatebion*

C1: A ddylai'r Cynulliad Cenedlaethol basio cyfraith yng Nghymru er mwyn ceisio gwneud hawliau plant yn bwysicach nag erioed o'r blaen?




C2: Mae'r gyfraith newydd yn ceisio sicrhau bod hawliau plant yn cael eu hystyried yn ofalus iawn pan fydd Llywodraeth Cymru'n gwneud penderfyniadau pwysig a allai effeithio ar lawer o blant a phobl ifanc. A ydych chi'n credu y dylai'r gyfraith ddweud yn union pa fathau o


'benderfynidau pwysig' y bydd y gyfraith yn effeithio arnynt neu a ddylai Llywodraeth Cymru benderfynu ar hyn yn nes ymlaen?



C3: Mae gan Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 'restr o reolau' sy'n rhoi hawliau i blant a phobl ifanc rhwng 0 a 18 oed. A ydych chi'n credu y dylai'r gyfraith hon hefyd gynnwys pobl ifanc rhwng 18 a 25 oed?



C4: Fel rhan o'r gyfraith newydd, bydd yn rhaid cael Cynllun Plant, a ddylai ddweud rhagor wrthym ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru'n penderfynu pa fathau o benderfyniadau pwysig fydd y gyfraith yn effeithio arnynt. Dylai'r cynllun hefyd ddweud rhagor wrthym ynghylch y ffordd y bydd Llywodraeth Cymru'n gwneud yr hyn y mae'r gyfraith newydd yn ei ddweud. A ydych chi'n credu y dylai fod gan blant a phobl ifanc yr hawl i ofyn am newid beth sydd yn y cynllun hwn?




Os ydych yn credu hynny, pam y dylai plant a phobl ifanc gael gwneud hyn yn eich barn chi?

- Mae'r ddeddfwriaeth yn ymwneud â hawliau, a phwy well na phlant i wybod beth mae plant ei eisiau?
- Er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu grymuso; er mwyn sicrhau bod y cynllun yn gofalu am eu buddiannau bob amser.
- Am mai eu bywyd hwy ydyw.
- Dylai pobl ifanc allu gofyn am lefydd i fynd er mwyn eu cadw allan o drybini ac oddi ar y strydoedd, rhywle lle y gallant fynegi barn gan mai eu barn hwy sy'n bwysig a hwy sy'n gwybod beth sydd orau iddynt.

- Gan y byddai cael barn pobl ifanc yn gwella pethau, efallai gan mai hwy sy'n gwybod beth sydd orau iddynt ac nid o safbwynt oedolyn.
- Gall y plant gyfrannu awgrymiadau a fydd o fudd iddynt eu hunain a chenedlaethau i ddod.
- Am y bydd yn effeithio arnynt.
- Eu bywyd hwy ydyw.
- Mae'n effeithio ar blant yn llwyr a dylid ystyried eu penderfyniadau a'u safwbyntiau hwy.
- Os ydynt yn teimlo bod penderfyniadau sydd wedi eu gwneud ond nad ydynt yn bod yn effeithiol yn eu hamcanion.
- Bydd hyn yn effeithio arnynt. Mae'n amlwg y dylid ei ddefnyddio er mwyn cyfeirio ato.
- Am ei fod yn effeithio arnynt a dylent gael dweud eu dweud.
- O gofio y bydd y gyfraith newydd yn effeithio ar bobl ifanc, byddai'n synhwyrol i roi cyfle iddynt wneud cais am newid os ydynt yn credu bod angen hynny.
- Mae ganddynt hawl i gael gwybod bod eu hawliau yn cael eu cynnal a phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
- Os yw pobl ifanc am fod yn ganolog i waith craffu ar bolisiau ac ati ar gyfer plant a phobl ifanc, dylent hefyd allu gofyn i bethau gael eu newid er mwyn cael y gorau o Gynllun y Plant.

Q5: Pan fydd Llywoddraeth Cymru'n newid yr hyn sydd yn y Cynllun Plant, bydd yn rhaid iddi ofyn i blant a phobl ifanc am eu barn a'u syniadau. A ydych yn credu y dylai'r Llywoddraeth ofyn i unrhyw un arall am eu barn?



Os ydych, pa fath o bobl ddylai'r Llywodraeth ofyn iddynt?

- Rhywun i adolygu penderfynidau sy'n ymwneud â phlant er mwyn sicrhau eu bod yn ddefnyddiol.
- Ysgolion, rhieni, gweithwyr cymdeithasol ac ati.
- Rhieni – wedi'u parchu fel oedolion.
- Oedolion ifanc.
- Dylent awgrymu amrywiaeth o weithgareddau yn ein hardal fel nad yw plant y loetran ar gorneli strydoedd yn gwneud pob math o bethau.
- Oedolion, pensiynwyr.
- Rhieni, perthnasau.
- Rhieni, perthnasau, athrawon – nid wyf yn credu y dylai plant gael mwy o gyfle i ddweud eu dweud am ei fod yn rhoi pwysau arnynt i ddysgu a deall pethau nad oes eu hangen arnynt ar hyn o bryd.
- Rhieni / gwarcheidwaid – ein trin ni fel oedolion.
- Pobl sy'n gysylltiedig â magu plant, gofalu amdanynt a'u trefnu a gweithgareddau plant.

- Rhieni, athrawon a phobl eraill sy'n dylanwadu ar blant a phobl ifanc – Mae erthygl 12 yn datgan y dylem gael caniatad i ddweud beth y credwn ddylai ddigwydd. A yw hyn yn cynnwys yr hawl i bleidleisio? Os yw hyn yn wir, rhaid cynnwys mwy o fanylion gan nad oes gan bobl ifanc ar y cyfan wybodaeth wleidyddol i wneud y penderfyniad hwnnw.
- Rhieni / Gwarcheidwaid - Ystyried a yw'r gyfraith mewn gwirionedd o fantais neu o anfantais i waith y Cynulliad Cenedlaethol pan mae cyfreithiau rhyngwladol eisoes yn bodoli.
- Cwestiwn 3 – Dim pawb, 21 efallai?
- Pobl sy'n gweithio'n agos gyda phlant ac athrawon / gweithwyr cymdeithasol.
- Cwestiwn 3 – Dibynnu pa mor hawdd yw ei ddiwygio.
- Cwestiwn 6 – dylid gofyn i rieni, gan mai hwy sy'n gyfrifol am eu plant.

Rydwyf yn meddwl mai pobl 18 oed ddylai benderfynu gan fod pobl yn cael pleidleisio wedi hynny felly gallant newid y Llywodraeth os ydynt yn dymuno.

- Rwyf yn meddwl y dylem ystyried a oes angen mwy o ddeddfwriaeth mewn gwirionedd.
- Rhaid gofyn i amrywiaeth o bobl gan y byddai gofyn i neb ond plant a phobl ifanc yn golygu ymateb fyddai'n fwy truagarog.
- Rhieni – efallai y dylid craffu ar y cwestiwn cywir mewn ffordd ystyrllon a realistig gan fod rhai ohonynt yn amlwg yn aneglur ac yn amhriodol, heb son am y ffaith eu bod yn ddiangen, o gofio bod y gyfraith bresennol yn gorfodi'r hawliau hyn eisoes. Mae'n ymddangos fel bod angen ffordd llawer mwy ymarferol o fynd i'r afael â'r problemau hyn.
- Rhieni / Gwarcheidwaid
- Dylai rhieni ac athrawon fod yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau hefyd. Hawliau plant sy'n penderfynu beth sydd orau i blant a phobl ifanc; gallai rhieni ac athrawon ddarparu gwybodaeth ychwanegol.